CYNGOR TREF
FFESTINIOG
TOWN COUNCIL

**Swyddfa'r Cyngor • 5 Stryd Fawr • Blaenau Ffestiniog • Gwynedd • LL41 3ES**
**☎ 01766 832 398 ✉ clerc@cyngortrefffestiniog.cymru**

DEDDF CYRFF CYHOEDDUS (MYNEDIAD I GYFARFODYDD) ADRAN 1(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ATODLEN 12 PARAGRAFF 26(2) [A]

YN UNOL Å GOFYNION Y DARPARIAETHAU STATUDOL UCHOD HYSBYSIR TRWY HYN Y CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG
YN SIAMBR Y CYNGOR, 5 STRYD FAWR, BLAENAU FFESTINIOG, GWYNEDD LL41 3ES
NOS IAU 13EG O HYDREF 2016 AM 7.00 YR HWYR.

**AT GADEIRYDD A CHYNGHORWYR**
**CYNGOR TREF FFESTINIOG**

# FE'CH GWYSIR DRWY HYN I FYNYCHU CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG 13EG O HYDREF 2016

**MAE HAWL GAN AELODAU'R CYHOEDD FYNYCHU'R CYFARFOD ONI WNEIR PENDERFYNIAD PRIODOL YN EU HATAL OHONO**

# RHAGLEN

1. Derbyn Ymddiheuriadau

2. Datganiad o Ddiddordeb - Bydd ffurflen Datgan Buddiant Personol ar gael yn y cyfarfod

3. Croesawu'r Cynghorydd Gareth W Roberts fel aelod newydd ar gyfer ward Diffwys a Maenofferen.

4. Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. **Dalier Sylw trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.**

5. Materion i'r Heddlu

6. Derbyn a chadarnhau Cofnodion Cyfarfod Arferol 8fed o Fedi 2016

7. * Cyfrifon i'w talu

8. Pwyllgorau

*a) Pwyllgor Adnoddau
Derbyn argymhellion Gweithgor Adnoddau Nos Fawrth 13eg Medi 2016

*b) Pwyllgor Mwynderau
Derbyn argymhellion Pwyllgor Mwynderau Nos Iau 15fed Medi 2016

9. Ceisiadau Cynllunio
Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio

10. Parc Cenedlaethol Eryri
Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri
Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r Awdurdod wedi paratoi Cytundeb Cyflawni a gytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r amserlen ar gyfer ei baratoi, a sut bydd yr Awdurdod yn cynnwys partïon a diddordeb yn y broses. Gellir gweld copi o'r Cytundeb Cyflawni ar
www.eryri-npa.gov.uk/planning/planning-policy/local-development-plan-revision

11. Parc Cenedlaethol Eryri
Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri - Galw am ddarpar safleoedd
Mae'r Awdurdod yn chwilio am nifer fach o safleoedd newydd ar gyfer tai o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae hwn yn gyfle i ddatblygwyr, tirfeddianwyr, aelodau'r cyhoedd ac unrhyw bartïon eraill a diddordeb i gyflwyno safleoedd dichonol i'w hystyried ar gyfer eu datblygu yn y CDLl. Dylai awgrymiadau ar gyfer safleoedd datblygu gael eu danfon erbyn 4ydd Tachwedd 2016

12. Parc Cenedlaethol Eryri
Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri - Asesiad o Fannau Agored
Mae'r Awdurdod yn adolygu'r 'Papur Cefndir Mannau Agored'. Fel rhan o'r adolygiad hwn mae angen i'r Awdurdod gynnal archwiliad o'r tir a ddefnyddir ar gyfer dibenion hamdden a mwynderau cyhoeddus. Mae mannau agored yn darparu swyddogaeth gymunedol bwysig ac mae angen i'r drefn cynllunio gydnabod y rôl hon yng ngoleuni newidiadau economaidd presennol ac yn y dyfodol.

13. Comisiwn Ffiniau i Gymru
Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru
Cyhoeddwyd Adroddiad Cynigion Cychwynnol y Comisiwn ar 13 Medi 2016 ac mae ar gael ar wefan y Comisiwn - www.comffin-cymru.gov.uk . Dylid cyflwyno sylwadau erbyn 5ed Rhagfyr 2016.

**Datblygiadau yn yr ardal**

14. Iechyd.

15. Gwefan y Cyngor Tref
Gwybodaeth ddiweddaraf

**Materion yn codi**

16. Partneriaeth y Parc

17. Caeau Chwarae

**Materion er gwybodaeth**

18. Cyngor Gwynedd
Rhaglen Waith Hydref 2016

19. Cyfle i Gynghorwyr adrodd yn ôl i'r Cyngor yn dilyn eu presenoldeb mewn pwyllgorau allanol

20. Newyddion o Gyngor Gwynedd

**Gohebiaeth**

21. Rheilffordd Ffestiniog
Cyfnodolyn

*Amgaeaf gopi



Ann M Coxon
Clerc y Dref
27ain Medi 2016